# <u>Cyngor Cymuned Llanycil</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fercher, Gorffennaf 13eg 2022 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Huw Charles (is-gadeirydd), Jean Roberts, Gwynfryn Williams, Rhys Richards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Euros Puw, Arwel Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Gan nad oedd Euros Puw yn bresennol cytunodd Huw Charles i gadeirio'r cyfarfod.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Cyfethol aelod newydd.</u>
Derbyniwyd llythyr gan Rhys Hywel Jones yn datgan diddordeb mewn ymuno a'r Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol i'w gyfethol fel cynghorydd.

<u>b) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-</u>
i) Canghennau coed yn pwyso ar y wifren ffôn gyferbyn a Thŷ Capel Moelgarnedd - cynghorwyd y Cyngor i gysylltu â BT ynglŷn â'r mater.
ii) Angen torri coed yn nôl rhwng Tŷ'n Ffridd a Phont Ceunant, Rhyduchaf - roedd y gweithlu wedi cael cyfarwyddiadau i ymgymryd â'r gwaith.
iii) Ffordd yn pantio'n ddrwg rhwng Moelgarnedd a Cefnbodig, Llanycil a gyli dal angen sylw ar riw Parc - roedd yr Arolygwr am gadw golwg ar y safleoedd ac ymgymryd â'r gwaith pan oedd angen.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd
ii) Ymgynghori ar eu cynlluniau Rhwydwaith Teithio Llesol - cytunwyd i ddosbarthu'r e-bost i'r cynghorwyr nodi eu cefnogaeth ar gyfer cwblhau'r llwybr o'r Bala i Lanuwchllyn.
iii) Ymgynghori ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy.
iv) Gweithdai Ardal Ni 2035 - cytunodd y cynghorwyr i fynychu'r gweithdy ym mis Medi.

<u>b) Cyfoeth Naturiol Cymru.</u>
i) Sesiwn galw fewn yng Nghanolfan Hamdden Penllyn, 11/08/22.
ii) Diweddariad Diogelwch ar Gronfa Ddŵr Llyn Tegid.

<u>c) Amrywiol.</u>
i) Cyngor Tref Y Bala - trefniadau parcio mynwent Llanycil - roedd y clerc eisoes wedi cysylltu â Byd Mary Jones i ofyn a oedd posib agor eu maes parcio ar gyfer trigolion lleol.
ii) Gwahoddiad i noson agoriadol Cylch Meithrin Garn Bach, Frongoch – cytunwyd i anfon neges yn dymuno'n dda i'r Cylch yn eu cartref newydd.
iii) Llywodraeth Cymru – Canllaw'r Cynghorydd Da.
iv) The Anne Robson Trust Helpline - cyflwyniad i'r gwasanaeth.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol, nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol:-

NP5/72/65H - Newid defnydd glaswelltir wedi'i wella ac adeiladau diangen er mwyn ymestyn maes carafanau presennol. Maes Carafanau Plas Moelgarnedd, Llanycil.
NP5/72/248 - Dwy uned gwyliau a gosod uned trin carthion. Tir ger Boch y Rhaedr, Arenig.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Taliadau
Cytunwyd i dalu cyflog a chostau'r clerc (Ebr-Meh) a TWE.

**vii) Materion lleol.**

a) Parc Cenedlaethol Cymru.
Cytunwyd i anfon at y Parc yn cwestiynu'r opsiwn o dalu i dynnu'r Amod 106 i ffwrdd o geisiadau cynllunio a chwestiynu lle'r oedd yr arian yn cael ei wario.

b) Cyflwr y ffordd yn Llanycil.
Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Asiantaeth Cefnffyrdd ynglŷn â chyflwr y ffordd yn dilyn y gwaith ar yr arglawdd yn ddiweddar.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 13eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.**



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….